Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 2 Rhagfyr 2008

Teitl: Cyfleoedd prifysgol i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae prifysgolion Cymru wedi cael eu canmol am gefnogi dysgu pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal cyhoeddus.

Talodd Jane Hutt, Gweinidog Addysg y Llywodraeth, deyrnged i waith ac ymrwymiad prifysgolion a cholegau Cymru yn y gynhadledd ar *Gynorthwyo Plant dan Ofal ac Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch* a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd ac a drefnwyd ar y cyd gan CCAUC ac Ymddiriedolaeth Frank Buttle.

Mae chwe phrifysgol ac un coleg addysg bellach yng Nghymru eisoes wedi ennill Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch ers 2006. Mae'r Nod Ansawdd yn cydnabod ymrwymiad y sefydliadau i helpu plant dan ofal a'r rheiny sy'n gadael gofal i lwyddo yn eu hastudiaethau.

Meddai Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Rhaid llongyfarch CCAUC am yr arweiniad cadarn mae wedi'i ddangos wrth yrru'r agenda hwn yn ei flaen, gyda'r canlyniad mai Cymru sy'n arwain y ffordd yn y DU os ystyriwn faint o sefydliadau yma sydd wedi derbyn Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle."

Dywedodd Gerri McAndrew, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Frank Butte: “Rydw i wrth fy modd bod Jane Hutt wedi cymeradwyo’r Nod Ansawdd a bod saith sefydliad yng Nghymru wedi’i dderbyn hyd yma. Mae 40 o sefydliadau wedi ennill y Nod Ansawdd yng ngweddill y DU ac mae rhagor yn mynegi diddordeb bob dydd. Rydym ni’n bwriadu dyblu’r nifer hwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf.”

Meddai’r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Rhoddodd y gynhadledd gyfle i lunwyr polisi ac ymarferwyr rannu eu profiadau o helpu plant dan ofal ac ymadawyr gofal cyn ac yn ystod eu hamser mewn addysg uwch. Gobeithiwn y bydd yr arfer da a gafodd ei rannu yn golygu y bydd mwy o bobl ifanc sy’n gadael gofal yn cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus mewn addysg uwch neu addysg bellach.”

Diwedd

Nodiadau:
Mae Ymddiriedolaeth Frank Buttle, sy’n darparu grantiau a chymorth i alluogi pobl ifanc i ymgymryd â chyrsiau mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill, wedi creu Nod Ansawdd sy’n cydnabod sefydliadau sy’n gwneud ymdrech arbennig i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal cyhoeddus.
http://www.buttletrust.org/

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae’n gyfrifol am weinyddu’r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a

- chyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.